# Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
# Darllen ar draws y cwricwlwm
# Ar Drywydd Dysgu/camau ABC

## Addysgeg y Cyfnod Sylfaen

**Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy:**
- gwricwlwm priodol lle mae'r saith Maes Dysgu yn cyd-fynd a chydweithio â'i gilydd
- gweithgareddau mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored
- gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys rhai a ysgogir gan y plant
- profiadau sy'n caniatáu iddynt fabwysiadu ystod o rolau, gan gynnwys arwain mewn grŵp bach, dysgu fesul pâr neu weithio mewn tîm
- gwahanol adnoddau, gan gynnwys TGCh
- cyfleoedd dysgu ymarferol sy'n caniatáu iddynt dyfu'n ddysgwyr annibynnol
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu synhwyrau a bod yn greadigol a dychmygus
- tasgau a heriau sy'n eu hannog i ddatrys problemau a thrafod.

## Ystod o brofiadau

**Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:**
- gael profiad helaeth o iaith o'u cwmpas sy'n eu trwytho yn yr iaith lafar a'r ysgrifenedig
- ymarfer, datblygu a mireinio eu sgiliau ym mhob agwedd o'r ddarpariaeth, gan gynnwys y ddarpariaeth barhaus, ac ar draws pob Maes Dysgu
- mynegi eu hunain yn greadigol gan ddefnyddio'u dychymyg
- cael profiad o bob math o gyfryngau a thechnolegau sy'n datblygu
- cael darllen a rhannu amrywiaeth o destunau a storïau nad ydynt yn ffuglen a storïau gwerin traddodiadol, cerddi o Gymru ac o bob rhan o'r byd, gan gynnwys y rheini a ysgrifennwyd gan awduron plant enwog
- gwneud marciau/ysgrifennu mewn pob math o genre
- cyfathrebu mewn ystod o gyd-destunau at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

## Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLlRh yn ymddangos heb ei uwch-oleuo. Bydd testun sydd yn sgil newydd yn ymddangos wedi'i uwch-oleuo. Bydd y testun hefyd yn cael ei ddynodi gan yr eicon canlynol.

**Sgil ADD/camau ABC ❖**

## D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.


© Hawlfraint y Goron 2014
WG21273

# Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
# Darllen ar draws y cwricwlwm
# Ar Drywydd Dysgu/camau ABC

| Elfennau | Agweddau | Map llwybrau ADD<br>**Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol ar fap llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD).** | Camau A<br>**Mae dysgwyr yn gallu:** | Camau B<br>**Mae dysgwyr yn gallu:** | Camau C<br>**Mae dysgwyr yn gallu:** |
|---|---|---|---|---|---|
| Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth | Strategaethau darllen | Gweithredu'n fwriadol ar amgylchedd pob dydd [*ADD 24*] | dangos sylw cynyddol i rai llyfrau, gan roi llyfrau eraill i'r naill ochr | cyflwyno'u hoff lyfr i oedolyn er mwyn i'r oedolyn ddarllen y llyfr iddynt | **dewis nifer o wahanol fathau o ddeunydd darllen o gasgliad a dangos diddordeb ym mhob un ❖** |
| | | | chwilio am eitemau 'cynrychioliadol', e.e. *lluniau, ffotograffau, llyfrau cyffyrddol/codi dalen, ac ati* | dal llyfr neu'n ei droi ar i fyny | trin a thrafod llyfr, gan droi'r tudalennau o'r blaen i'r cefn yn bennaf, ac edrych arnynt â diddordeb |
| | | | | | edrych ar y dudalen chwith mewn llyfr cyn edrych ar y dudalen dde |
| | | | | | **cysylltu sŵn perthnasol i lun, *e.e. dweud 'mŵ' wrth weld llun buwch* ❖** |
| | | | | | paru geiriau cyfarwydd iawn ac adnabod ychydig o lythrennau penodol, e.e. *llythrennau o'u henw eu hunain* |
| | | | | | 'darllen' llinell amser o ddarluniau neu symbolau ac yn dweud beth fydd yn digwydd |
| | | | | canfod eu henw eu hunain mewn amrywiaeth o fannau yn yr ystafell ddosbarth | canfod eitem a ddymunir drwy archwilio/dehongli labeli |
| | | Rhannu sylw [*ADD 40*] | dangos diddordeb wrth i oedolyn ddarllen stori, gan edrych ar yllyfr, ei gyffwrdd a'i drin a'i drafod ar brydiau | pwyntio at lun o gymeriad mewn stori gyfarwydd | **defnyddio geiriau, arwyddion neu symbolau perthnasol i gyfeirio at fanylion pwysig mewn llun ❖** |
| | | | | paru unigolyn cyfarwydd â ffotograff clir o'r unigolyn hwnnw | **cysylltu ychydig o eiriau ysgrifenedig i symbolau, ffotograffau neu wrthrychau ❖** |
| | | | | | **dewis lluniau ar sgrin ac ymateb yn ddeallus iddynt ❖** |



© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273

# Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
# Darllen ar draws y cwricwlwm
# Ar Drywydd Dysgu/camau ABC

| Elfennau | Agweddau | Map llwybrau ADD<br>Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol ar fap llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD). | Camau A<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Camau B<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Camau C<br>Mae dysgwyr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd | Deall | Mynegi, mewn dulliau symbolaidd, eu bod yn well ganddynt eitemau nad ydynt yn bresennol [*ADD 41*] | lleisio mewn ymateb i ran arbennig o stori gyfarwydd | paru eitemau mewn sach stori â chymeriadau, lleoedd neu ddigwyddiadau mewn stori gyfarwydd iawn | defnyddio lluniau i roi digwyddiadau allweddol (tri ohonynt) yn eu trefn mewn stori gyfarwydd |
| | | | | **ymateb i wybodaeth mewn llun neu symbol unigol, e.e. *dod o hyd i'r gwrthrych â gynrychiolir* ❖** | dilyn cyfarwyddiadau dau gam syml sydd wedi'u 'hysgrifennu' ar ffurf lluniau neu symbolau |
| | | | gwrando, gyda diddordeb, ar synau a recordiwyd ar swits 'cam wrth gam', neu ar stori lafar ar gyfrifiadur; defnyddio swits neu sgrin gyffwrdd i ailadrodd synau a symud y stori ymlaen | creu sŵn neu iaith lafar sy'n cyfateb i lun mewn stori gyfarwydd, e.e. *dewis swits (o blith dau) a'i bwyso i chwarae'r sŵn priodol* | cyfeirio at brint yn yr amgylchedd neu roi sylw arno, e.e. *labeli, hysbysiadau* |
| | | | **cymryd rhan wrth greu stori wedi'i phersonoli, yna pan ei darllenir, gwrando ac edrych gyda diddordeb ❖** | **cymryd rhan wrth greu stori wedi'i phersonoli, yna pan ei darllenir, dangos eu bod yn adnabod eu hunain yn y stori ❖** | **gwneud cysylltiadau i brofiadau y maent wedi eu cael pan fyddant wedi'u darlunio mewn stori wedi'i phersonoli ❖** |
| | | | | defnyddio gair (llafar) neu ddewis gwrthrych neu symbol i 'ddisgrifio' nodwedd a ddarlunnir mewn llyfr stori | cynnig rhywfaint o wybodaeth am stori gyfarwydd |
| | Ymateb a dadansoddi | Cyfleu 'mwy'/'dim mwy' drwy ddwy weithred gyson wahanol [*ADD 28*] | dangos ymateb penodol i agwedd synhwyraidd ar stori adnabyddus, e.e. *chwerthin a chyffro mewn golygfa frwydr, anesmwythder wrth glywed cerddoriaeth 'iasol'* | efelychu (e.e. *copïo mynegiant wyneb*) neu ddangos empathi (e.e. *o!*) wrth ymateb i rywbeth penodol sy'n digwydd i gymeriad mewn stori gyfarwydd | mynegi mewn rhyw fodd neu'i gilydd (o'u hysgogi) eu hagwedd bersonol tuag at stori neu ddiddordeb mewn stori sydd newydd gael ei darllen, e.e. *hoffi/ddim yn hoffi, adalw digwyddiad penodol, ac ati* |
| | | Rhannu sylw [*ADD 40*] | rhagweld patrwm sy'n ailadrodd mewn stori, e.e. *gwenu ar 'ffi,ffei, ffo, ffym'.* | dangos pleser pan fydd oedolyn yn dechrau darllen un o'u hoff storïau, gan ymateb ar adegau allweddol a dangos dealltwriaeth pan fydd wedi dod i ben | edrych ar a chynnal diddordeb mewn testunau gyda/heb oedolyn. |



© Hawlfraint y Goron 2014  WG21273

# Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
# Darllen ar draws y cwricwlwm
# Ar Drywydd Dysgu/camau ABC

| Elfennau | Agweddau | Map llwybrau ADD<br>Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol ar fap llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD). | Camau A<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Camau B<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Camau C<br>Mae dysgwyr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd | Ymateb a dadansoddi | | | edrych ar un neu ddau o'u hoff lyfrau lluniau cyfarwydd (neu gyfrwng synhwyraidd cyfatebol) gydag oedolyn, gan roi sylw i agweddau penodol y bydd yr oedolyn yn cyfeirio atynt yn y llun. | |


© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273